# Hysbysiad Preifatrwydd - NousCubane fel Prosesydd Data

## Dyddiad dechrau: 6 Chwefror 2024

## 1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae NousCubane (y cyfeirir ato fel “ni” ac “ein” yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn darparu gwasanaethau penodol i'r sefydliad ("Sefydliad") sy'n eich cyflogi, neu'n eich defnyddio i ddarparu gwasanaethau fel contractwr. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol. O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i chi gael eich hysbysu am y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Rydym yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn rhinwedd ein swyddogaeth fel “prosesydd data” ar gyfer y Sefydliad, sy'n “rheolydd y data” ac sy'n gyfrifol am benderfynu sut a pham y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu. Gallwch weld manylion rheolydd y data, gan gynnwys manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data, drwy glicio yma.

## 2. Sut a pham rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol gennych pan fyddwch yn cwblhau arolwg neu gais am gasgliad. Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch gan y Sefydliad o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys at ddiben ein galluogi i anfon dolenni’r arolwg neu’r cais am gasgliad atoch. Ar gyfer arolygon, mae’r Sefydliad yn ein defnyddio yn y modd hwn er mwyn diogelu cyfrinachedd eich ymatebion i’r arolwg ac, fel rheolydd y data, mae’n pennu at ba ddibenion y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a'r modd y bydd yn cael ei phrosesu.

Mewn ceisiadau am gasgliadau, mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei chasglu a'i phrosesu er mwyn i'r Sefydliad gael gwybodaeth am sut y mae'n darparu adnoddau ar gyfer ei wasanaethau gweinyddol a chymorth. Mewn arolygon, defnyddir gwybodaeth bersonol i e-bostio gwahoddiadau arolwg at y staff yn gofyn sut eu barn am effeithiolrwydd gwasanaethau gweinyddol a chymorth y Sefydliad. Rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â’n contract ysgrifenedig gyda’r Sefydliad ac unrhyw gyfarwyddiadau neu gyfarwyddyd eraill a ddarperir ganddo.

Ar gyfer arolygon, rydym yn ymdrechu i ddarparu data ymateb dienw yn unig i'r Sefydliad drwy ein hoffer adrodd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod meysydd sy'n gofyn am ymateb ar ffurf testun rhydd wedi'u cynnwys mewn arolygon yn anochel yn golygu y gallai data o ymatebion i arolygon gynnwys gwybodaeth bersonol. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd hwn, dylech fod yn ofalus ac osgoi darparu gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi neu berson arall wrth ateb cwestiynau testun rhydd.

## 3. Y mathau o wybodaeth bersonol rydym yn eu prosesu

Mae gwybodaeth bersonol yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n galluogi i'r person hwnnw gael ei adnabod. Mae’r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu mewn perthynas â chi yn cynnwys:

- Gwybodaeth cofrestru cyfrif er mwyn eich gosod ar ein systemau, neu i anfon gwybodaeth a diweddariadau atoch mewn perthynas â'n systemau, gan gynnwys UFAanalytics, UFAST ac UFHelp. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich enw, enw defnyddiwr, teitl swydd (os yw'n berthnasol) a manylion cyswllt gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Y wybodaeth sy'n angenrheidiol i hwyluso eich presenoldeb yn un o'n digwyddiadau neu gynadleddau, gan gynnwys manylion cyswllt fel enw a chyfeiriad e-bost a gwybodaeth arall megis anghenion deietegol;
- Eich ymatebion i gwestiynau'r arolwg, a all gynnwys eich barn a'ch sylwadau am eich boddhad â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Sefydliad
- Bydd eich ymatebion yn y broses casglu gwybodaeth am weithgaredd yn cynnwys darparu manylion am sut y mae amser aelod o'r tîm yn cael ei ddyrannu i wahanol weithgareddau a manylion rheoli sefydliadau eraill megis faint o bobl y mae'n eu goruchwylio neu'n eu rheoli.

Mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chasglu'n awtomatig hefyd pan fyddwch yn defnyddio ein systemau, ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth a gesglir o wasanaethau olrhain trydydd partïon sy'n defnyddio cwcis a thagiau tudalennau (gwefannau) i gasglu data cyfanredol dienw am ddefnyddwyr gwefannau ein Gwasanaethau, gan gynnwys ystadegau am ddefnydd a defnyddwyr;
- Data am ddyfeisiau sy'n cael eu cofnodi am y ddyfais a'r rhaglen y mae cyfranogwyr yn eu defnyddio i gael mynediad at ein gwasanaethau gan gynnwys cyfeiriad IP a'r math o borwr. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am leoliad daearyddol defnyddiwr yn seiliedig ar y cyfeiriad IP;
- Data atgyfeirio a gofnodir gan gyfranogwyr sy’n cyrraedd un o’n gwefannau neu systemau ar-lein o ffynhonnell allanol (fel dolen ar wefan arall neu mewn e-bost) ac rydym yn cofnodi gwybodaeth am y ffynhonnell a wnaeth eich atgyfeirio atom;
- Rydym yn defnyddio cwcis (darnau bach o ddata yr ydym yn eu storio ar ddyfais a ddefnyddir i gael mynediad i'n gwasanaethau) ar ein gwefannau, er mwyn i ni allu adnabod defnyddwyr sy'n dychwelyd. Mae pob cwci yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol, yn dibynnu ar gyfer beth rydym yn ei ddefnyddio. Rydym yn defnyddio cwcis am sawl rheswm, gan gynnwys:

a) I wneud ein systemau yn haws eu defnyddio. Rydym yn cadw enwau defnyddwyr mewn cwci er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr sy'n dychwelyd fewngofnodi.

b) I wella diogelwch. Rydym yn defnyddio cwcis i ddilysu hunaniaeth defnyddiwr megis gwirio a yw defnyddiwr wedi mewngofnodi i un o'n systemau ar hyn o bryd.

c) I ddarparu cynnwys personol i ddefnyddwyr.

## 4. Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Y Sefydliad, fel rheolydd y data, sy’n pennu at ba ddibenion y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu a sut y gwneir hynny. Mae'r Sefydliad yn dibynnu ar gyflawni ei fuddiannau cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae'r buddiannau cyfreithlon hyn yn ymwneud â gwella effeithiolrwydd y modd y rheolir ei wasanaethau gweinyddol a chymorth. Mae'r Sefydliad wedi penderfynu na fydd cyflawni'r buddiannau cyfreithlon hyn gan y Sefydliad yn drech na'ch hawliau a'ch rhyddid.

## 5. Rhannu a storio data a gwneud copïau wrth gefn

Rydym yn gweithredu yn Awstralia, Canada, Iwerddon, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig ('Cwmnïau NousCubane'). Efallai y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu rhwng ein cwmnïau cysylltiedig,

ond dim ond at ddibenion ein galluogi i ddarparu ein gwasanaethau i'ch Sefydliad ac mewn cysylltiad â hynny. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a drosglwyddir y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael ei throsglwyddo ar y sail bod mesurau diogelu digonol ar waith, gan gynnwys cymalau diogelu data y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd rhannu eich gwybodaeth bersonol rhwng cwmnïau cysylltiedig ond yn digwydd pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn darparu ein gwasanaethau i'ch Sefydliad, megis trefnu digwyddiadau sy'n berthnasol i ddarparu ein gwasanaethau i chi a'ch Sefydliad, at ddibenion cymryd rhan mewn digwyddiadau, i'n galluogi i gael adborth gennych ar ein gwasanaethau, neu i ddarparu cymorth technegol gan gynnwys drwy ein rhaglen UFHelp. Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at unrhyw ddibenion nad ydynt yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn i'ch Sefydliad.

Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon ar y sail bod hynny'n cydymffurfio â'r deddfau preifatrwydd perthnasol a bydd eich gwybodaeth yn destun mesurau diogelu priodol, yn cael ei storio'n ddiogel a'i thrin yn unol â'n safonau diogelwch data. Cysylltwch â Swyddog Diogelu Data eich Sefydliad am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r camau y mae eich Sefydliad yn eu cymryd i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol wrth drosglwyddo gwybodaeth i drydydd parti neu rhwng gwledydd.

Mae gennym drefniadau prosesu data a chreu copïau wrth gefn sy'n drefniadau ar wahân oddi ar y safle ym mhob awdurdodaeth yr ydym yn gweithredu ynddi. O bryd i'w gilydd rydym yn gwneud copi wrth gefn o ddata i'w gadw ar systemau diogel ac yn gwneud copïau wrth gefn yn ddyddiol i'w cadw ar systemau diogel oddi ar y safle. Mae'r systemau prosesu a chadw copïau wrth gefn oddi ar y safle wedi'u lleoli mewn cyfleusterau diogel gyda mynediad cyfyngedig iddynt. Ac eithrio'r wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi digwyddiadau ac i ddarparu ein cymorth technegol, cedwir ein cronfeydd data gweithredu, gweinyddion a chopïau wrth gefn o fewn y rhanbarth perthnasol:

a) Awstralia a Seland Newydd: gwybodaeth bersonol a gedwir yn Awstralia

b) Canada a Mecsico: gwybodaeth bersonol a gedwir yng Nghanada

c) Iwerddon a'r Deyrnas Unedig: gwybodaeth bersonol a gedwir o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

## 6. Diogelwch data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei defnyddio, ei newid, ei datgelu neu ei gweld mewn ffordd anawdurdodedig yn ddamweiniol. Yn ogystal â hynny, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r gweithwyr, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill y mae angen iddynt ei gweld at ddibenion busnes. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achos a amheuir o dorri diogelwch data a byddwn yn hysbysu eich Sefydliad am unrhyw achos o'r fath lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

## 7. Cadw data

Byddwn yn prosesu ac yn storio eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y byddwn yn parhau i fod yn brosesydd data i reolydd y data. Mewn unrhyw achos, bydd eich gwybodaeth bersonol ond yn cael ei chadw cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

## 8. Hawliau mewn perthynas â mynediad, cywiro, dileu a chyfyngu

### Eich Hawliau mewn Perthynas â Gwybodaeth Bersonol

O dan rai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i:

- **Ofyn am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn "gais am fynediad gan destun data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- Gofyn i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch **gael ei chywiro**. Mae hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro.
- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol os oes rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar sail buddiannau cyfreithlon.
- **Gofyn am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i rywun arall.
- **Cyflwyno cwyn** i awdurdod goruchwyliol.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r hawliau uchod at Swyddog Diogelu Data rheolydd y data.

## 9. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 14 Ebrill 2020 a gellir cael copi drwy gysylltu â ni.

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn rhoi hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill am brosesu eich gwybodaeth bersonol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data rheolydd y data.

## 10. Cwmnïau NousCubane

Awstralia a Seland Newydd: Cubane Consulting Group Pty Ltd, ABN: 15 613 111 443

Y DU: Cubane Consulting (UK) Limited, Rhif Cwmni 09526740

Canada: Cubane Consulting (Canada) Ltd, Rhif Corfforaethol. C1169363